**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Medi 2016**

**ALLDRO AMCANOL 2016-2017**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Trysorydd am y Tro**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol amcangyfrifiedig i'r Aelodau am flwyddyn ariannol 2016-2017.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y gwasanaeth tân ac achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion presennol, ni fydd unrhyw danwariant a bydd angen £484,320 o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Yn ystod y broses o osod y gyllideb, amcangyfrifwyd y byddai angen £760,417 o gronfeydd wrth gefn er mwyn gosod cyllideb fantoledig. Ceir dadansoddiad manwl yn atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd mis Awst ac mae'n amcangyfrif y gwariant am 7 mis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae dros 70% o wariant y gwasanaeth tân ac achub yn gysylltiedig â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd yna danwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant ar gyflogau yn gysylltiedig â diffoddwyr tân y system RDS, sef £281k. Mae sefyllfa'r alldro'n seiliedig ar y nifer gyfredol o ddiffoddwyr tân a gyflogir, ac mae'n ystyried tueddiadau yn y lwfansau a'r trosiant ar sail profiad y blynyddoedd a fu a'r lefelau gweithgarwch hyd yma.

6 Yn dilyn proses recriwtio yn gynharach eleni, cafodd nifer o ddiffoddwyr tân amser cyflawn (WDS) eu cyflogi, a'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyflogi ar gontractau gwledig amser cyflawn. Ynghyd â'r prentisiaid diffoddwyr tân, maent yn darparu gofal ar orsafoedd y system RDS. Mae hyn yn golygu eu bod yn gweithio mwy o oriau na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb, ac arweiniodd hyn at ragweld £394k o orwariant. Fodd bynnag, mae'r arbedion ar gyllidebau diffoddwyr tân RDS yn gwrthbwyso'r gorwariant.

7 Mae'r tanwariant yng nghyllideb y prif swyddogion yn gysylltiedig â'r swydd wag ar gyfer Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

8 Mae'r gorwariant ar gyllideb staff cefnogol yn gysylltiedig â staff sgiliau arbenigol sydd wedi cael eu cyflogi ar gontractau cyfnod penodol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Mae eu hangen i gyflawni prosiectau trawsffurfiannol, fel y system gorchymyn a rheoli newydd a'r system newydd ar gyfer gwybodaeth reoli.

9 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n recriwtio diffoddwyr tân ychwanegol ar gyfer y system RDS. Bydd hyn yn golygu y bydd angen darparu rhagor o hyfforddiant nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol pan osodwyd y gyllideb. Rhagwelir y bydd £25k o orwariant ar y gyllideb hyfforddiant.

10 Mae'r gorwariant ar y gyllideb pensiynau oherwydd y cyfraniad i gronfa bensiwn y diffoddwyr tân ar gyfer ymddeoliadau ar sail afiechyd. Os bydd diffyg cyffredinol yn y gyllideb, gellir cael hyn o'r gronfa a glustnodwyd i ymorol am y taliadau ychwanegol hyn.

**Safleoedd**

11 Yn gyffredinol, bydd yna fymryn o danwariant, sef £5k, ar y gyllideb safleoedd. Mae'r amrywiadau sylweddol i'w cael ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw a'r gyllideb ynni. Amcangyfrifir y bydd gorwariant ar y gyllideb ynni oherwydd, yn ddarbodus, cynhwysir amcangyfrif uwch ar gyfer costau rhedeg gorsaf dân newydd Wrecsam. Nid yw'r gwir gostau rhedeg yn hysbys eto hyd nes y byddwn wedi meddiannu'r adeilad am 12

mis. Fodd bynnag, bydd unrhyw orwariant yn cael ei wrthbwyso gan arbedion ar gostau ynni oherwydd amcangyfrifir y bydd yna ostyngiad sylweddol yn y costau trydan, hyd at 30% ar rai safleoedd, a hynny oherwydd defnyddir llai ac mae'r adran gyfleusterau wedi negodi contractau ynni newydd.

**Cludiant**

12 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yna £108k o danwariant ar y gyllideb cludiant. Mae'r costau ychwanegol ar y gyllideb peiriannau a chyfarpar oherwydd bod adran y fflyd yn gwneud darpariaeth i ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw yng ngorsaf newydd Wrecsam o bosibl, a hynny ar y cyd ag YGAC a Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r arbedion ar y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw oherwydd y gwaith ychwanegol a wnaed yn fewnol, a'r arbedion effeithlonrwydd a gafwyd ar nifer o gontractau. Yn ôl yr arwyddion presennol, bydd costau tanwydd yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y lefelau gweithgarwch presennol a'r gostyngiad ym mhrisiau tanwydd.

**Cyflenwadau**

13 Mae'r Awdurdod wedi newid cyflenwyr ar gyfer y contract gofal rheoledig ar gyfer cyfarpar amddiffyn personol (PPE), ac oherwydd bod contractau wedi gorgyffwrdd, mae disgwyl tanwariant bach ar y gyllideb gwisgoedd.

14 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd yna danwariant ar gostau cyfrifiaduron. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer system gysylltiadau radio. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r prosiect a'r risgiau sy'n gysylltiedig. Y llynedd, neilltuwyd £300k i ymorol am rai o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i'r system newydd, ond ar yr adeg hon o'r flwyddyn gellir ariannu'r costau ychwanegol o'r gyllideb refeniw.

15 Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd tanwariant ar y gyllideb cysylltiadau oherwydd nifer o ffactorau sy'n cynnwys gostyngiad yng nghost rhentu llinellau, rhentu ffonau symudol, costau galwadau a phrynu caledwedd.

16 Bydd gorwariant ar dreuliau cynadleddau a chynhaliaeth oherwydd bod mwy yn gymwys am hawliadau cynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol sy'n cael eu teithio a'r oriau sy'n cael eu gweithio gan ddiffoddwyr tân sy'n darparu gofal ar gyfer gorsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd £17k o orwariant ar y gyllideb cynhaliaeth.

17 Bydd y gwariant ar brosiectau arbennig fel 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG)/Pwyllgor Materion Arbennig yn is na'r gyllideb oherwydd bod y lefelau gweithgarwch yn is na'r flwyddyn flaenorol. Bydd y gostyngiad yn yr incwm a gafwyd i ariannu'r prosiectau hyn yn gwrthbwyso'r tanwariant hwn.

18 Mae'r cynllun treialu cyd-ymateb yn cael ei ymestyn, a gallai gael ei roi ar waith fesul cam mewn gorsafoedd ychwanegol eleni. Ni osodwyd unrhyw gyllideb ar gyfer y cynllun treialu oherwydd disgwylid y byddai'r costau ychwanegol yn gallu dod o'r gyllideb yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae £10k o'r tanwariant yn cael ei dalu gan incwm ychwanegol a gafwyd drwy ail-godi tâl. Dangosir hyn fel cynnydd ar y gyllideb incwm amrywiol.

19 Bydd gorwariant ar y gyllideb ffioedd proffesiynol oherwydd cynnydd yn y ffioedd actiwaraidd a chynnydd yn y ffioedd broceru am drefnu benthyciadau byrdymor.

**Asiantaeth**

20 Mae'r gost i'r Awdurdod Tân ac Achub am lanhau adeiladau wedi cynyddu oherwydd bod contract glanhau wedi cael ei osod i lanhau'r holl orsafoedd. O'r blaen, roedd y gwaith glanhau ar orsafoedd y system RDS yn cael ei wneud gan lanhawyr y cynghorau sir a chan ddiffoddwyr tân RDS a oedd yn derbyn lwfans am gyflawni'r dyletswyddau. Telir y costau ychwanegol yn rhannol drwy arbedion ar lwfansau glanhau. Mantais y contract newydd yw fod safonau yn eu lle erbyn hyn i sicrhau bod yr holl orsafoedd yn cael eu glanhau i lefel uwch, gan wella'r cyfleusterau i'r diffoddwyr tân sy'n gweithredu o'r gorsafoedd.

21 Mae'r costau ychwanegol ar linell y gyllideb iechyd galwedigaethol oherwydd y gofyniad i ddarparu profion meddygol ychwanegol.

**Cyllido Cyfalaf**

22 Amcangyfrifir bod y costau dyledion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin a bod benthyciadau byrdymor yn cael eu defnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Hefyd, cafwyd costau llog is drwy 'fenthyca'n fewnol', pryd y defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na threfnu benthyciadau newydd.

**Incwm**

23 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd incwm fymryn yn is na'r gyllideb wreiddiol. Cafwyd gostyngiad i'w groesawu yn nifer y galwadau gwasanaethau arbennig ond arweiniodd hyn at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Gostyngodd yr incwm o ffioedd cyfalaf yn unol â'r gwariant a fu ar y rhaglen gyfalaf ac ailgysoni'r gyllideb gyfalaf. Mae'r incwm ychwanegol o werthiant wedi digwydd oherwydd yr incwm a ddaw o ganlyniad i gael gwared ar gerbydau a chyfarpar pan brynir rhai newydd neu pan nad oes mo'u hangen mwyach.

**Incwm Grant**

24 Yn dilyn yr archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon, argymhellwyd bod yr Aelodau'n cael gwybod am y grantiau a ddyfarnwyd i'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol gyffredinol fel eu bod yn gwbl wybodus am sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Dyma'r grantiau a ddyfarnwyd hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon:-

Firelink - £415,600 (wedi'i gynnwys yn y ffigyrau alldro)
Tîm Lleihau Llosgi Bwriaodl - £153,705
Ymyriadau - £196,000
Refeniw Cymru Gydnerth - £221,636
Cyfalaf Cymru Gydnerth - £118,665
Y Ffenics - £170,000
Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd - £53,142

25 Bydd unrhyw wariant ychwanegol a wneir gan yr Awdurdod i fodloni telerau'r grant yn dod drwy incwm grant. Ni ddangosir y gwariant hwn yn natganiad alldro'r gyllideb.

**Argymhelliad**

26 Bod yr Aelodau'n nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod.